

1. Gohiriwyd/Deferred

#	Cyfeirnod y Cais / Application Reference	Dyddiad y derbyniwyd / Received Date	Ymgeisydd / Applicant	Bwriad / Proposal	Lleoliad / Location	Argymhelliad / Recommendation
1	A210916	16-09-2021	Mr N Evans	A one planet development with additional track way An erection of a low impact zero carbon 3 bedroom house An erection of a wooden workshop for apple juice making and herbal products An erection of 2 poly tunnels, wildlife pond	Lletty'r Gôg, Llangeitho, Tregaron. SY25 6SY	Refuse
2	A211186	22-12-2021	(Aldi Stores Ltd)	The erection of a Class A1 retail Aldi foodstore, the refurbishment of a Grade II listed sports pavilion, the installation of three pre-fabricated wooden exhibition pods, and a nature and biodiversity area with associated access, car parking and landscaping.	Trinity St Davids Playing Fields Pontfaen Road, Lampeter, Ceredigion,	Refuse
3	A240169	08-03-2024	Mr and Mrs I & A Evans	Erection of dwelling, agricultural shed and associated works on site of former/abandoned dwelling	Fronlwyd, Llangrannog, Llandysul, Ceredigion, SA44 6RR	Refuse
4	A240509	03-07-2024	Mr Peredur Evans	Newid defnydd o'r eiddo o fod yn swyddfa (cyfreithwyr) i fod yn annedd neu dy byw	Manarafon, Stryd Y Capel, Tregaron, Ceredigion, SY25 6HA	Refuse
5	A240772	22-10-2024	Mr Geraint Roberts (Barcud)	Full planning application for the proposed resurfacing and reconfiguration of existing car park together with residential development and associated works	Land At Central Car Park, New Quay, SA45 9QQ	Approve Subject to Conditions

1.1. A210916



Rhif y Cais / Application Reference	A210916
Derbyniwyd / Received	16-09-2021
Y Bwriad / Proposal	A one planet development with additional track way An erection of a low impact zero carbon 3 bedroom house An erection of a wooden workshop for apple juice making and herbal products An erection of 2 poly tunnels, wildlife pond
Lleoliad Safle / Site Location	Llettyr Gog, Llangeitho, Tregaron. SY25 6SY
Math o Gais / Application Type	Full Planning
Ymgeisydd / Applicant	Mr N Evans, 2a Town End, Hungarton, LE7 9JT
Asiant / Agent	,

Y SAFLE A HANES CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r safle 9.5 hectar arfaethedig yn cynnwys set o 12 o gaeau pori bychain gyda gwrychoedd aeddfed cyffiniol. Mae'r safle tua 1.5 cilometr i'r de-orllewin o Langeitho a 5.5 cilometr i'r De-ddwyrain o Dregaron. Mae nant fechan yn rhedeg trwy ogledd y safle. Mae'r ffin de-ddwyrain yn ffinio â ffordd heb enw sy'n dod oddi ar y B4342.

Mae sgubor a gymeradwywyd yn flaenorol dan gais rhif A010633 wedi'i leoli ar y ffin deheuol ar ddiwedd y llwybr mynediad.

Defnyddiwyd y tir i bori defaid yn flaenorol. Ar hyn o bryd, ni ddefnyddir y tir, ac eithrio i gynhyrchu gwair ar hanner y tir, fel y cofnodir yn y datganiad cyflwyno.

Mae cynefinoedd cyfagos yn y tirlun ehangach yn cynnwys tir pori tebyg, coetiroedd a gwrychoedd.

Hanes Cynllunio Perthnasol

- A010633 – Codi sied at ddibenion amaethyddol gan gynnwys cadw anifeiliaid yn achlysurol – Cymeradwywyd yn Unol ag Amodau 28 Awst 2001

MANYLION Y DATBLYGIAD

Mae'r ymgeiswyr yn cynnig datblygiad un blaned a fyddai'n sefydlu gerddi llysiau, coed cnau, gerddi perllysiau, perllan draddodiadol, gerddi ffrwythau meddal, yn ogystal â chadw ieir.

Byddai'r gwaith peirianeg ac adeiladu arfaethedig yn cynnwys annedd bychan, gweithdy, lloches cae, dau dwnnel polythen a phwll.

Byddai'r eiddo arfaethedig yn cynnwys cegin, ystafell aml-bwrpas, ystafell fyw, ystafell solar, pantri, dwy ystafell wely ac ystafell ymolchi. Byddai'r ystafell solar yn nhw blaen yr annedd, gyda ffenestri mewn tri gweddllun er mwyn sicrhau cymaint o fantais solar ag y bo modd. Byddai'r annedd tua 10.0m x 10.0m a byddai uchder y crib tua 7.0m. Byddai dau do croes y naill ochr i'r talcenco canol.

Byddai waliau byrnau gwellt, ffrâm pren a chladin pren yn cael eu defnyddio i adeiladu'r annedd, a byddai ganddo do tun a ffenestri dwbl pren a drysau pren. Byddai arâe paneli solar yn cael ei osod ar weddln deheuol y to.

Bwriedir lleoli gweithdy bychan i'r gogledd o'r annedd, a byddai'r gweithdy hwn tua 7.0m o ran lled a 4.0m o ran dyfnder, a byddai uchder y crib tua 4.0m. Unwaith eto, byddai cladin pren a tho tun i'r gweithdy. Byddai'r gweithdy yn cael ei ddefnyddio i brosesu ffrwythau a chnau, yn ogystal â gweithdy perllysiau. Byddai dwy set o ddrysau yn y gweddllun blaen er mwyn cael mynediad i bob rhan o'r gweithdy, a byddai 4 ffenestr fychan yn y gweddlluniau eraill.

Byddai lloches cae bychan yn eistedd gerllaw ffin de-ddwyrain y safle a byddai hwn yn cael ei leoli y tu ôl i wrych newydd ac o fewn llwyni yr ardd goedwig bresennol. Byddai gan y lloches cae bychan hwn strwythur agored heb unrhyw ddrysau a byddai oddeutu 3.0m x 3.0m o ran maint, ac unwaith eto, byddai cladin pren a tho tun ar y strwythur hwn.

Byddai twnnel polythen 1 yn cael ei leoli ymhlith y tŷ a'r gweithdy arfaethedig, a byddai'r twnnel polythen hwn tua 8.0 x 4.0m a byddai ganddo ddrysau gwbl wrth ddau dalcen y twnnel. Byddai twnnel polythen 2 yn cael ei leoli tua 40m i'r dwyrain a gerllaw y lle plannu ffrwythau meddal arfaethedig. Byddai'r ail dwnnel polythen hwn tua 14.0m x 4.0m a byddai drysau dwbl wrth ei ddau dalcen hefyd.

Byddai'r pwll yn cael ei leoli i'r gogledd o'r sgubor presennol sydd ar y safle, ac i'r de o'r annedd arfaethedig. Byddai'r pwll o siâp hirgrwn, byddai'n 30.0m o ran hyd ac yn 12.0m o ran lled.

POLISIÂU A CHANLLAWIAU CYNLLUNIO PERTHNASOL

Mae'r polisiau canlynol o'r Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol wrth benderfynu'r cais hwn:

- S04: Datblygu mewn aneddiadau cyswllt a lleoliadau eraill
- DM06: Dylunio a chreu lle o safon uchel
- DM09: Dylunio a Symud
- DM10: Dylunio a Thirlunio
- DM14: Cadwraeth Natur a Chysylltedd Ecolegol
- ~~DM15: Cadw Bioamrywiaeth Lleol~~
- DM17: Y Dirwedd yn Gyffredinol

- DM20: Gwarchod coed, gwrychoedd a choetiroedd

Polisi Cynllunio Cenedlaethol

- Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040
- Polisi Cynllunio Cymru. Rhifyn 11
- TAN 6: Datblygu ar gyfer cymunedau gwledig cynaliadwy
- Canllawiau Ymarfer Datblygu Un Blaned, Nodyn Cyngor Technegol 6 (2012)

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL ERAILL

DEDDF TROSEDD AC ANHREFN 1998

Mae Adran 17(1) Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998 yn rhoi dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gyflawni ei swyddogaethau amrywiol gan roi sylw dyladwy i effaith debygol cyflawni'r swyddogaethau hynny ar ei ardal, a'r angen i wneud popeth y gall ei wneud yn rhesymol i atal trosedd ac anrhefn yn ei ardal. Ystyriwyd y ddyletswydd hon wrth werthuso'r cais hwn. Ystyriir na fyddai unrhyw gynnydd arwyddocaol neu annerbyniol mewn trosedd ac anrhefn o ganlyniad i'r penderfyniad arfaethedig.

DEDDF CYDRADDOLDEB 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi nifer o 'nodweddion gwarchoddedig', sef oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gredo; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol; priodas a phartneriaeth sifil. Mae rhoi sylw dyladwy i hyrwyddo cydraddoldeb yn cynnwys:

- gwaredu neu leihau gymaint ag y bo modd anfanteision y bydd pobl yn eu dioddef o ganlyniad i'w nodweddion gwarchoddedig;
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig lle y mae'r rhain yn wahanol i angen pobl arall; ac
- annog pobl o grwpiau gwarchoddedig i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill lle y mae eu cyfranogiad yn isel mewn ffordd anghymesur.

Rhoddyd ystyriaeth ddyladwy i'r ddyletswydd uchod wrth wneud penderfyniad am y cais hwn. Barnir nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael unrhyw oblygiadau ar gyfer, nac effaith ar, unigolion sy'n rhannu nodwedd warchoddedig, yn ychwanegol i unrhyw unigolyn arall.

DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau rhesymol i gyflawni ei swyddogaethau er mwyn bodloni'r saith nod llesiant yn y Ddeddf. Paratowyd yr adroddiad hwn trwy ystyried dyletswydd y Cyngor a'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' fel y nodir yn Neddf 2015. Wrth wneud yr argymhelliad, mae'r Cyngor wedi ceisio sicrhau y bodlonir anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i fodloni eu hanghenion nhw.

YMATEBION YMGYNGHORI

Cyngor Cymuned Llangeitho – Wedi gwrthwynebu'r cynnig am y rhesymau canlynol:

- Gweledd gwael wrth fynd allan i'r briffordd.
- Mae'r mynediad yn anwastad ac yn cynnwys nifer o dyllau.
- Nid yw'r ddaear yn addas i blannu / tyfu llysiau gan ei fod yn ddaear gwlyb iawn.
- Nid oes lle byw ar y ddaear er mwyn gallu rhedeg busnes o'r safle.

Priffyrdd – Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau, yn unol ag amodau.

19/2/2025 - Argymhelliad diwygiedig. Gwrthod y cais am y rhesymau canlynol:

Ystyriir bod y Ffordd Ddiddosbarth Sirol sy'n gwasanaethu'r safle, a'i chyffordd gerllaw gyda'r Ffordd Dosbarth II Sirol B4342 yn annigonol i wasanaethu'r datblygiad arfaethedig oherwydd eu haliniad gwael; lled cyfyngedig; diffyg darpariaethau pasio; gweledd blaen cyfyngedig; gosodiad cyffordd cyfyngedig ac amodau gweledd; a diffyg darpariaethau Teithio Llesol. Byddai'r bwriad, o'i ganiatáu, yn debygol o arwain at amodau a fyddai'n niweidiol i ddiogelwch ffyrdd.

Draenio Tir - Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau, yn unol ag amodau.

Ecoleg - Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau, yn unol ag amodau a gwybodaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru – Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiadau, nid oedd o'r farn bod y datblygiad arfaethedig yn effeithio ar fater a restrir dan eu Pynciau Ymgynghori

Dŵr Cymru – Dim gwrthwynebiad

Hawliau Tramwy – Dim gwrthwynebiad, cynigiwyd gwybodaeth ynghylch yr Hawl Tramwy Cyhoeddus cyfagos, 42/7

Sylwadau trydydd parti

Cafwyd dau wrthwynebiad, ac roedd dau gyfrannydd wedi mynegi eu pryderon am y cais, ond nid oeddent wedi mynd mor bell â gwrthwynebu'r cynnig. Rhoddir crynodeb ohonynt isod:

Pryderon gwrthwynebwyr

- Mae'r llwybr mewn cyflwr gwael er mwyn gallu ymdopi â defnydd o'r fath.
- Barnwyd bod tanddatgan o ran y defnydd isel y rhagwelir y bydd cerbydau yn ei wneud o'r safle.
- Mynediad a ffordd allan beryglus ar i brif ffordd Llangeitho – Stags Head.
- Yn amheus o'r angen am y datblygiad o ystyried y ffaith nad oes prinder tyddymnod sydd ar werth yng Ngheredigion. 5 / 151
- Pryderon pellach ynghylch y cynsail tai y gallai'r safle ei sefydlu.

- Absenoldeb cysylltiad â'r prif gyflenwad dŵr.
- Bylchau yn y data ariannol a ddarparwyd sy'n ymwneud â gorbenion.
- Gwrthwynebwyd a chyflwynwyd fideo o'r llwybr yn dilyn glaw trwm, a oedd yn dangos dŵr yn rhedeg ac yn gorchuddio'r ffordd fynediad.

Pryderon a fynegwyd gan ddau gyfrannwr ar wahân

- Mynegwyd pryderon ynghylch dichonoldeb bodloni gofyniad draenio SUDs yn gallu delio â llifogydd a welir unwaith mewn canrif
- Yn amheus a fyddai'r cyflenwad trydanol arfaethedig yn gallu bodloni gofynion yr offer arfaethedig a fyddai'n defnyddio cryn dipyn o ynni
- Mynegwyd pryder am y mynediad i'r safle
- Pryderon pellach am y cynsail ynghylch tai a allai gael ei osod gan y safle

CASGLIAD

Mae Adran 38 (6) Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi: "Os ystyrir y cynllun datblygu at ddibenion unrhyw benderfyniad i'w wneud dan y Ddeddfau cynllunio, rhaid i'r penderfyniad fod yn unol â'r cynllun, oni bai bod ystyriaeth berthnasol yn dynodi fel arall".

Mae Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040, yn gwneud cyfeiriad at ymrwymiad i fyw o fewn ein modd gan ddefnyddio ein cyfran ni yn unig o adnoddau'r blaned, a'u defnyddio mewn ffordd effeithlon. Yn ogystal, mae Canlyniad 11 Cymru'r Dyfodol yn rhagweld pobl yn byw mewn mannau sydd wedi'u datgarboneiddio a lle y mae'r hinsawdd yn gydnherth.

Mae Polisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11, yn cyfeirio at Ddatblygiad Un Blaned (OPD) fel datblygiad isel ei effaith sy'n gwella ansawdd yr amgylchedd neu nad yw'n gwaethygu ansawdd yr amgylchedd mewn ffordd arwyddocaol. Dylai OPD a leolir mewn cefn gwlad agored ddarparu ar gyfer anghenion lleiaf preswylwyr o ran incwm, bwyd, ynni a chronni gwastraff dros gyfnod heb fod dros pum mlynedd ers cychwyn ar y gwaith ar y safle. Dylai cynllun rheoli wedi'i baratoi gan unigolyn(unigolion) cymwys ddangos tystiolaeth o hyn. Pan na ellir dangos hyn, dylid ystyried cynigion yn erbyn polisïau sy'n ceisio rheoli datblygiad mewn cefn gwlad agored.

Dylai Awdurdodau Cynllunio ddilyn y canllawiau yn TAN 6 ynghylch gofynion OPD a chynlluniau rheoli cysylltiedig.

Mae canllawiau TAN 6 ar gyfer Datblygiad Un Blaned yn nodi'r canlynol, "Un o amcanion y Cynllun Datblygu Cynaliadwy, "Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned" yw y bydd Cymru, o fewn un genhedlaeth, yn defnyddio dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear, ac y bydd ein hól troed ecolegol yn cael ei leihau yn ôl maint yr adnoddau sydd ar gael ar gyfartaledd yn fyd-eang – 1.88 hectar byd-eang y pen yn 2003. Mae Datblygiadau Un Blaned yn bwrw ymlaen ag egwyddorion Datblygiad Isel ei Effaith (LID) yn y cyd-destun Cymreig. Datblygiad Un Blaned yw datblygiad y mae, trwy ei effaith isel, yn gwella ansawdd yr amgylchedd neu nad yw'n ei waethygu yn sylweddol. Mae Datblygiad Un Blaned o bosibl yn fath enghreifftiol o ddatblygu cynaliadwy. Ar y dechrau, dylai Datblygiadau Un Blaned sicrhau ôl troed ecolegol o 2.4 hectar byd-eang y pen neu'n llai o ran defnydd, gan ddangos potensial clir i symud tuag at darged hectar byd-eang 1.88 gydag amser. Dylent fod yn ddatblygiadau di-garbon hefyd o ran eu hadeiladwaith a'r defnydd a wneir ohonynt."

Mae canllawiau TAN 6 yn ymhelaethu ar y meini prawf angenrheidiol y byddai angen eu bodloni er mwyn caniatáu OPD. Mae adran 4.16.1 TAN 6 yn nodi bod angen tystiolaeth gadarn i gefnogi ceisiadau Cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned ar y tir mewn cefn gwlad agored. Rhaid bod cynllun rheoli, wedi'i baratoi gan unigolyn(unigolion) cymwys, yn cyd-fynd â cheisiadau cynllunio ar gyfer y math hwn o ddatblygiad. Dylai'r cynllun rheoli nodi amcanion y cynnig, yr amserlen er mwyn datblygu'r safle a'r amserlen ar gyfer adolygu. Dylid ei ddefnyddio fel sail cytundeb cyfreithiol sy'n ymwneud â deiliadaeth y safle, os rhoddir caniatâd cynllunio. Dylai'r cynllun rheoli gynnwys y meysydd canlynol:

- Cynllun Busnes a Gwella er mwyn nodi a oes angen byw ar y safle a phennu lefel gofynion y preswylwyr o ran incwm, bwyd, ynni a chymhathu gwastraff, y mae modd ei sicrhau o'r safle yn uniongyrchol;
- Dadansoddiad ôl troed ecolegol o'r datblygiad;
- Dadansoddiad carbon o'r datblygiad;
- Aseiad bioamrywiaeth a thirlun;
- Aseiad effaith cymunedol i nodi effeithiau posibl ar y gymuned letyol (yn rhai cadarnhaol a negyddol) a chynnig sail er mwyn nodi a gweithredu unrhyw fesurau lliniaru a fydd yn angenrheidiol efallai, ac;
- Aseiad trafndiaeth a chynllun teithio i nodi anghenion trafndiaeth y preswylwyr ac er mwyn cynnig datrysiadau teithio cynaliadwy.

Mae Adran 4.16.2 TAN 6 yn nodi pan na fydd ceisiadau cynllunio ar gyfer Datblygiadau Un Blaned a leolir mewn cefn gwlad agored yn cynnwys y wybodaeth a nodir ym mharagraff 4.16.1, dylai'r awdurdod cynllunio geisio'r wybodaeth angenrheidiol gan yr ymgeisydd yn gyntaf. Os na ddarparir hon, byddai ganddynt yr hawl i wrthod y cais ar sail diffyg cyfiawnhad cywir dros y cynllun.

Trosolwg ac Aseiad o Gynllun Rheoli Un Blaned

Bydd yr Adran hon yn gweithio mewn ffordd olynol trwy wahanol elfennau'r cynllun rheoli, gan ddechrau gyda'r Cynllun Busnes a Gwella. Er eglurder, bydd y ffurf yn dilyn y drefn a nodir yng nghanllawiau arfer OPD er mwyn cynnig aseiad systematig o'r cynnig yn erbyn y polisi.

Dyluniad / Strategaeth

Dosbarthiad cyffredinol arfaethedig defnydd tir a gweithgareddau ar y safle:

- Gardd gartref – llysiâu: Mae'r Ardd Gartref tua 860 metr sgwâr o ran maint, ac mae'n cynnwys:
- 12 gwely llysiâu, pob un yn 5.6m x 3.6m = 242 metr sgwâr
- Blodau/perlysiâu: 9 gwely, pob un yn 10m x 15m = 1350 metr sgwâr
- Ffrwythau Meddal: 4 gwely, pob un yn 10m x 15m = 600 metr sgwâr
- Afalau: 85 coeden – tua 2700 metr sgwâr
- Cnau cyll: 40 coeden – tua 1300 metr sgwâr
- ~~Gardd Goedwig: tua 2200 metr sgwâr~~
- Gwely cyrs: 3m x 6m = 18 metr sgwâr

- Twnnel polythen 1: 5m x 9.1m =287.5 metr sgwâr
- Twnnel polythen 2: 5m x 14.6m= 73 metr sgwâr
- Gweithdy: 8m x 4m (allanol) = 32 metr sgwâr

Mae'r adeiladau wedi cael eu clystru gyda'i gilydd er mwyn lleihau'r effaith a fel bod modd iddynt oll ddefnyddio un darn o arwyneb solet. Dylanwadwyd ar leoliadau agweddau adeileidig y datblygiad gan dopograffeg y tir ac fe'u lleolir ar ddarn o laswelltir wedi'i led-wella, yn unol ag argymhelliad Aderyn Ecology Ltd.

Byddai'r safle yn cynnal un aelwyd a byddai'n bodloni eu hanghenion lleiaf fel y dangosir yn adran Busnes a Gwella y cynllun rheoli a gyflwynwyd. Byddai gofyn i ddau aelod yr aelwyd weithio ar y safle dan drefniant rhan-amser.

Byddai'r ymgeiswyr yn rheoli'r safle ar y cyd ac yn rhannu'r gwaith yn unol â'u sgiliau a'u cryfderau. Rheolir sawl tasg ar y cyd, er enghraifft y cynaeafau ffrwythau. Byddant yn monitro eu cynnydd yn barhaus o ran eu targedau, a byddant yn cynorthwyo ei gilydd yn ôl y gofyn.

Y rhaglen amlinellol ar gyfer datblygiad y safle

- **Blwyddyn 1:** Plannu perllan, ffrwythau meddal, a gwrychoedd newydd. Taenu tomwellt ar gyfer gerddi blodau a pherlysiau. Dechrau plannu gerddi blodau a pherlysiau. Gosod llwybrau ac arwyneb solet. Gosod twnnel polythen 2. Sefydlu ardal gompostio. Gosod carafan ar y safle fel annedd dros dro.
- **Blwyddyn 2:** Plannu coed cyll a chastanwydd. Gosod twnnel polythen 1. Parhau i ddatblygu gerddi blodau a pherlysiau. Cynllun terfynol, lluniadau peiriannydd strwythurol a rheoliadau adeiladu ar gyfer yr annedd. Adeiladu'r gweithdy.
- **Blwyddyn 3:** Adeiladu'r annedd. Parhau i ddatblygu gerddi blodau a pherlysiau. Dechrau cynhyrchu cynhyrchion llysieuol.
- **Blwyddyn 4:** Parhau i adeiladu'r annedd. Cynyddu cynhyrchiant cynhyrchion llysieuol. Cynaeafu a gwerthu llus America. Cynaeafu afalau, prosesu sudd a gwerthu sudd afal. Datblygu gwelyau llysiau.
- **Blwyddyn 5:** Cwblhau'r annedd. Cynyddu cynhyrchiant cynhyrchion llysieuol. Cynaeafu a gwerthu llus America. Cynaeafu afalau, prosesu sudd a gwerthu sudd afal.

Cynllun Busnes a Gwella

Mae elfen tir y cynllun rheoli yn canolbwyntio ar gyfiawnhau'r angen i fyw ar y safle a sut y bydd y safle yn cynnal anghenion lleiaf y preswylwyr am fwyd, gan gynnig yr incwm lleiaf sy'n angenrheidiol er mwyn bodloni eu hanghenion domestig sylfaenol, o fewn 5 mlynedd i'r adeg lle y byddant yn byw ar y safle am y tro cyntaf. Dyma sylfaen yr angen i fyw ar y safle a'r rheswm pam y dylai'r safle fod yn unig breswylfa y preswylwyr.

Mae Canllawiau Arfer OPD yn nodi y dylai cynlluniau rheoli OPD unigol ddisgrifio a chofnodi sut y bydd yr anghenion bwyd ac incwm lleiaf yn deillio o'r safle mewn ffyrdd sy'n cyd-fynd â'r safle penodol a chynigion OPD. Mae'r gofynion hyn yn tanlinellu ethos sylfaenol y tir a chynhaliadau Datblygiad Un Blaned, ond nid ydynt yn atal y preswylwyr rhag ennill incwm arall.

Un o'r ffyrdd mwyaf amlwg lle y gall gweithgarwch ar y tir gynnal preswylwyr safle yw trwy ddarparu bwyd iddynt. Mae hyn yn lleihau eu heffaith amgylcheddol yn sylweddol, gan ei fod yn golygu nad oes yn rhaid cynhyrchu eu bwyd rywle arall, ei roi mewn pecynnau a'i gludo iddynt.

Nid yw hi'n ymarferol i holl anghenion bwyd y preswylwyr gael eu cynhyrchu ar y safle am ddau reswm: (a) mae'n anodd cynhyrchu a phrosesu yr holl mathau o fwyd sy'n angenrheidiol ar gyfer diet iach ar un safle yng Nghymru, yn enwedig grawnfwyd; a (b) bydd adegau o'r flwyddyn lle y bydd gweithgarwch cynhyrchu bwyd yn rhy fach i fodloni holl anghenion y preswylwyr. Mewn gwirionedd, dylai safle OPD fod yn gallu cynhyrchu o leiaf 65% o'r holl anghenion bwyd sylfaenol.

Mae tabl manwl (Tabl 3) yn y Cynllun Busnes a Gwella a gyflwynwyd yn dangos sut y bydd o leiaf 42% o anghenion bwyd yn cael eu cynhyrchu ar y safle. Yn ogystal, mae gofyn bod 23% pellach o werth bwyd yr aelwyd yn cael ei gynhyrchu gan y mentrau tir, a gwerth cyfan gwbl hwn yw £625.44.

Mae'r incwm a'r anghenion amcanestynedig o'r mentrau OPD yn seiliedig ar y ffigurau a gyflwynwyd yn 2021 pan gyflwynwyd y cais. Rhoddwyd y cyfle i'r ymgeisydd roi ffigurau wedi'u diweddarau ond oherwydd cyfyngiadau amser, a'r angen i sicrhau penderfyniad cyn gynted ag y bo modd oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio ers y cyflwynwyd y cais, penderfynwyd y gallai'r ymgeisydd roi'r ffigurau wedi'u diweddarau os bydd y Pwyllgor yn barnu bod hynny'n angenrheidiol.

Nodir yr anghenion domestig sylfaenol yn ystod blwyddyn 5, yn unol ag asesiad 2021, fel cyfanswm o £4,015.64. Mae hyn yn cynnwys dillad, esgidiau, teithio, cynnal a chadw cerbyd, TG ac ati. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys cost y bwyd ychwanegol a fyddai'n ofynnol er mwyn rhoi'r balans sy'n weddill o 65% yr anghenion bwyd sylfaenol sy'n ofynnol i'r OPD eu darparu. O ystyried y ffaith y rhagwelir y bodlonir 42% o'r anghenion bwyd ar y safle, mae hyn yn gadael diffyg o 23%, neu £625.44, o ran bwyd y mae angen iddo gael ei fodloni gan y mentrau ychwanegol yn yr OPD. Ymhelaethir ar y mentrau isod er mwyn dangos hyfywedd y gofyniad hwn.

Y refeniw disgwylidig o'r cynhyrchion llysieuol i'w gwerthu yn ystod blwyddyn 5 fyddai £5,096, gyda'r costau sy'n gysylltiedig â'r gwerthiant hwn yn rhoi cyfanswm o £1436.10. Byddai hyn yn creu elw o £3659.90.

Rhagwelir mai'r refeniw disgwylidig o gynhyrchu a gwerthu sudd afal fyddai £3827.25 erbyn blwyddyn 5, a'r costau fyddai £1275.75, gan roi elw blynyddol o £2551.50 erbyn blwyddyn 5.

Rhagwelir mai'r refeniw disgwylidig o gynhyrchu a gwerthu llus America fyddai £962.50 erbyn blwyddyn 5, gyda chostau o £46.20, gan roi elw blynyddol o £916.30 erbyn blwyddyn 5.

Nid oes gofyn i'r fenter gael unrhyw offer arbennig, a'r unig offer angenrheidiol yw cyfleusterau golchi dwylo, basgedi neu focsyst er mwyn cynaeafu, yn ogystal ag offer gardd cyffredinol.

Costau ac incwm blynyddol ar gyfer yr holl fentrau:

Menter	Incwm £
Cynhyrchion Llysieuol Rhodd Gaia	3659.9
Sudd Afal	2551.5
Llus America	916.3
Cyfanswm	7127.70

Gyda'i gilydd, ystyrir y bydd y mentrau a ddisgrifiwyd yn sicrhau'r incwm gofynnol er mwyn bodloni'r anghenion domestig sylfaenol yn ystod blwyddyn 5, sef £4,015.64.

Llety'r Gog fydd unig breswylfa yr ymgeiswyr. Maent wedi cynllunio'r mentrau, y gerddi a'r arferion rheoli tir ehangach fel bod y ddau ohonynt yn gallu rheoli'r safle. Fel y dangosir yn y tabl yn Atodiad 3 y cynllun rheoli, rhoddir crynodeb o'r ffordd y maent yn disgwyl treulio eu hamser ar elfennau amrywiol y safle o flwyddyn 5 ymlaen. Cyfanswm yr oriau gofynnol yw 256 o ddiwrnodau 8 awr mewn blwyddyn, sy'n cyfateb ag un swydd amser llawn.

Casgliad a meini prawf hanfodol

Bodlonir anghenion bwyd lleiaf o leiaf 65% yr holl breswylwyr gan y cynnyrch a dyfir ac a fagir ar y safle, neu a brynir gan ddefnyddio incwm sy'n dod o gynhyrchion eraill a brynir ac a dyfir ar y safle. 41% o'u hanghenion bwyd o'r safle yn uniongyrchol a'r 24% sy'n weddill yn cael ei dalu gan incwm o'r tir.

Rheoli'r Tir

Mae Adran 3.37 y canllawiau ymarfer yn nodi mai amcan Datblygiadau Un Blaned mewn cefn gwlad agored ddylai fod i ddiogelu, rheoli, a lle y bynnag y bo modd, gwella ansawdd yr amgylchedd. Y man cychwyn fydd yr hyn sydd eisoes yn bresennol ar y safle. Dylai Datblygiadau Un blaned ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, a thirlun y safle, gan ddwyn manteision i'r tirlun ehangach o bosibl hefyd. Bydd yn arbennig o bwysig diogelu safleoedd a nodweddion dynodedig ac yn achos bioamrywiaeth, cynefinoedd a nodweddion a nodir yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

Mae Adran 3.38 yn nodi y dylai'r amcanion ar gyfer bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol a thirlun fod yn rhan annatod o'r gwaith o reoli'r safle cyfan, gan ffurfio rhan o system rheoli tir sy'n gynaliadwy ac sy'n darparu bwyd a chynhyrchion eraill wrth gynnig budd i agweddau eraill ar yr amgylchedd hefyd. Bydd hyn yn cynnwys gwella deunydd organig pridd a chynyddu poblogaethau pryfed sy'n peillio ac ysglyfaethwyr naturiol i blâu a chlefydau. Trwy wneud hynny, dylai gynyddu gweithgarwch addasu yr amgylchedd naturiol i newid hinsawdd hefyd.

Mae'r meini prawf hanfodol fel a ganlyn:

Caiff yr holl gynefinoedd lled-naturiol a phwysig eraill sydd eisoes yn bodoli ar y safle eu diogelu a'u gwella trwy gyfrwng gweithgarwch rheoli traddodiadol priodol.

- Rheolir y gwrychoedd, y coetir a'r glaswelltir mewn ffordd briodol a sensitif er mwyn gwella nodweddion traddodiadol y safle ac er mwyn cynyddu bioamrywiaeth.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Sylwebaeth am gynefinoedd lled-naturiol a phwysig eraill ar y safle sy'n bodoli eisoes, a sut y cânt eu rheoli.

Caiff tirlun y safle ei wella trwy ychwanegu a rheoli mewn ffordd draddodiadol nodwedd neu nodweddion yr arferent fod yn nodweddiadol o'r tirlun lleol y gellir eu defnyddio, ymhlith pethau eraill, i sgrinio a hidlo golygon o elfennau adeiledig y cynigion a chynnig lloches a sgrinio i ardaloedd garddwriaethol.

- Caiff perllan draddodiadol a gwrychoedd newydd eu cynnwys yn y cynlluniau ar gyfer datblygiad y safle.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Sylwebaeth am nodweddion a gaiff eu creu ar y safle a sut y cânt eu rheoli.

Lleolir adeiladau a strwythurau eraill a llwybrau mynediad lle y mae modd eu cilfachu i mewn i'r tirlun ac nid ydynt yn sefyll allan mewn golygon o fannau ffafriol cyhoeddus.

- Lleolir pob adeilad a strwythur sy'n rhan o'r datblygiad mewn ardaloedd sy'n cael eu sgrinio gan oledffiad y tir a'r coed aeddfed sydd yno eisoes.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Sylwebaeth am y cynnydd gydag adeiladau a sut y cânt eu lleoli i leihau'r effaith weledol gymaint ag y bo modd.

Mae'r strategaeth rheoli tir yn amlinellu'r mesurau a gaiff eu cymryd i gynnal a gwella bioamrywiaeth ar y safle. Mae'r mesurau sy'n cael eu cynnwys yn niferus ac maent yn cynnwys cynigion megis creu perllan a phwll newydd. Mae disgrifiad manwl o bob cynnig yn amlinellu pa waith y bwriadir ei wneud a'r manteision tebygol i fioamrywiaeth lleol. Bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol ar gynyddu bioamrywiaeth ar y safle a bydd nifer o agweddau ar y cynllun rheoli tir yn cael effaith gadarnhaol ar wella'r tirlun lleol hefyd trwy sgrinio'r adeiladau arfaethedig o'r ardal o gwmpas. Ymhellach, mae gwelliannau megis deunydd organig pridd a phresenoldeb uwch pryfed sy'n peillio yn debygol o gael ei wella trwy gyfrwng y prosiectau arfaethedig, sef creu system gompostio a chreu gardd flodau a pherlysiau.

Ystyrir bod yr ymrwymadau a amlinellir yn y cynllun rheoli tir yn gadarnhaol a'u bod yn cydymffurfio â'r canllawiau ymarfer. Fodd bynnag, bydd yn rhaid i'r ymgeiswyr ddangos y gwelliannau hyn yn yr adroddiad monitro blynyddol.

Ynni

Mae TAN 6 yn gofyn am y canlynol mewn perthynas ag ynni:

- Meintioli sut y mae modd sicrhau gofynion y preswylwyr am ynni o'r safle yn uniongyrchol

- Ceir y potensial o gael manteision lleihau carbon cymunedol ehangach trwy allforio unrhyw drydan dros ben i'r grid

Er bod TAN 6 yn ystyried ynni yn unig, mae dŵr yn adnodd naturiol sy'n gofyn am reolaeth ofalus hefyd. Mae ynni a dŵr yn adnoddau a ddefnyddir gan ddatblygiad, felly maent yn creu effaith amgylcheddol. Mae'n nodwedd hanfodol o Ddatblygiad Un blaned bod y defnydd o'r adnoddau hyn yn cael ei leihau gymaint ag y bo modd, a'i fod yn cael ei ail-ddefnyddio pryd bynnag y bo modd, a bod anghenion ynni preswylwyr yn dod o'r safle. Dylai hyn fod yn wir ar gyfer dŵr hefyd, oni bai y gellir dangos bod dewis amgen sy'n fwy cynaliadwy ar lefel amgylcheddol.

Defnyddir ynni a dŵr gan weithgareddau domestig a gweithgareddau eraill ar y safle. Bydd y rhain yn aml yn gorgyffwrdd, megis tyfu cynnyrch.

Byddai'r annedd arfaethedig yn lleihau ei ddefnydd o ynni gymaint ag y bo modd trwy gyfrwng y mesurau effeithlonrwydd canlynol:

- Annedd wedi'i inswleiddio'n dda
- Stôf llosgi pren effeithlon ar gyfer gwresogi a choginio
- Goleuadau ynni isel
- Defnyddio dyfeisiau ynni isel
- Defnyddio dyfeisiau pan fydd pŵer digonol ar gael yn unig

Y ddwy brif ffynhonnell ynni cynaliadwy fydd biomas a phaneli Solar ar gyfer yr annedd.

Caiff biomas ei sicrhau yn bennaf ar ffurf pren sy'n sgil-gynnyrch gweithgarwch adfer a rheoli gwrychoedd, yn ogystal â gweithgarwch rheoli coed aeddfed mwy o faint ar y safle, megis y coed Ynn sy'n dioddef clefyd coed ynn. Ceir planhigfa Gwerni yno yn barod hefyd, a fydd yn rhan o drefniant cylchdro coedlan dros y blynyddoedd i ddod.

Bydd gan yr annedd arâe paneli solar 6 cilowat. Y swm nodweddiadol a gynhyrchir yn ystod yr haf fydd 15.36 cilowat a 5.04 cilowat y dydd yn ystod y gaeaf. Defnyddir banc batris fel byffer er mwyn caniatáu defnydd trydan yn ystod y nos ac er mwyn cynnig ffordd o ymdopi â chyfnodau hir o dywydd gwael yn ystod y gaeaf.

Mae'r trydan arfaethedig a fydd ar gael yn fwy na gofynion yr aelwyd.

Dŵr

Domestig

Defnyddir gwaith dylunio cynaliadwy er mwyn defnyddio cyn lleied o ddŵr ag y bo modd ar y safle. Bydd y safle yn defnyddio toiled compostio sych ac amcangyfrifir mai cyfanswm y gofyniad domestig am ddŵr ar gyfer Llety'r Gog fydd uchafswm o ddwy rhan o dair o'r defnydd dyddiol cyfartalog yng Nghymru. Felly, caiff tua 169.2 litr o ddŵr y dydd ei neilltuo ar gyfer defnydd domestig wrth gynllunio'r system.

Dyfrhau

Rheolir y gwaith o ddyfrhau'r gerddi yn ddyddiol a bydd yr aelwyd yn lleihau'r defnydd o weithgarwch dyfrhau mewn ffordd weithredol yn ystod cyfnodau sych er mwyn diogelu'r dŵr glaw a gynaeafwyd. Mae'r dull garddio o beidio cloddio yn defnyddio llai o ddŵr na dulliau gweithredu confensiynol o ganlyniad i strwythur pridd gwell.

Anifeiliaid

Caiff dŵr ar gyfer anifeiliaid ei gynaeafu o ddŵr glaw.

Ffynonellau Dŵr

Prif gyflenwad dŵr

Ceir cysylltiad â'r prif gyflenwad dŵr ar y safle yn barod. Barnwyd mai hwn yw'r dewis mwyaf amgylcheddol gynaliadwy ar gyfer darpariaeth ddomestig gan bod y seilwaith eisoes yn ei le.

Dŵr Glaw

Defnyddir toeon yr annedd a'r gweithdy a'r twnelau polythen i gynaeafu dŵr glaw a ddefnyddir i ddyfrhau ac er mwyn darparu dŵr yfed i'r anifeiliaid. Mae data gan y Swyddfa Dywydd yn dynodi bod y glawiad blynyddol cyfartalog ar y safle yn 1250-1500mm, sy'n uwch na'r cyfartaledd yn y DU, sef 1,100mm. Barnir bod y swm a gaiff ei storio yn ddigonol am hyd at 6 wythnos o ddefnydd yn ystod cyfnodau sych yr haf; gosodir hwn yn ystod y cam paratoi a bydd o faint priodol gan ddefnyddio profiad ymarferol.

Meini Prawf Hanfodol

Ynni

Mae'r canllawiau ymarfer yn cydnabod bod ynni a dŵr yn adnoddau a ddefnyddir gan y datblygiad, gan greu effaith amgylcheddol. Mae'n nodwedd hanfodol OPD bod y defnydd o'r adnoddau hyn mor fach ag y bo modd a'u bod yn cael eu hailddefnyddio pryd bynnag y bo modd, a bod anghenion ynni preswylwyr yn cael eu diwallu gan y safle. Mae'r canllawiau yn nodi y dylai hyn fod yn wir am ddŵr, oni bai y gellir dangos dewis amgen mwy cynaliadwy.

Caiff anghenion ynni y safle eu lleihau gymaint ag y bo modd trwy gynllunio a gwneud defnydd addas o dechnoleg, gan gynnwys yr hyn sy'n galluogi aildddefnyddio.

- Caiff anghenion ynni yr aelwyd eu lleihau gymaint ag y bo modd trwy gyfrwng cynllunio solar goddefol, caiff y tŷ ei inswleiddio'n sylweddol a defnyddir gosodiadau gotau a dyfeisiau ynni isel.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Sylwebaeth am strategaethau lleihau a ddefnyddir.

Bodlonir holl anghenion ynni yr holl weithgareddau gan ffynonellau ynni adnewyddadwy ar y safle, ac eithrio symiau bychain o danwydd anadewyddadwy at ddefnydd penodol, y maent fwyaf addas ar ei gyfer ac y mae modd cyfiawnhau eu defnyddio ar ei gyfer.

- Ac eithrio llif gadwyn a thanwydd cerbyd, bodlonir yr holl anghenion ynni gan baneli solar a gweithgarwch cynaeafu biomas ar y safle.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Ffigurau blynyddol am ynni a gynhyrchir ar y safle gan baneli Solar a choed tân. Ffigurau blynyddol ynghylch y defnydd o bob tanwydd anadnewyddadwy, gan gynnwys y cyfanswm a'r rheswm dros eu defnyddio.

Dŵr

Caiff angen y safle am ddŵr ei leihau gymaint ag y bo modd trwy gynllunio a defnyddio technoleg mewn ffordd addas, gan gynnwys yr hyn sy'n galluogi ailddefnyddio.

- Caiff yr angen am ddŵr ei leihau trwy ddefnyddio toiled compostio gyda siambr ddeuol a defnydd gofalus.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Sylwebaeth am ddefnydd dŵr blynyddol.

Rhaid manteisio i'r eithaf ar weithgarwch cynaeafu dŵr glaw o adeiladau a strwythurau.

- Caiff gweithgarwch cynaeafu dŵr glaw ei drefnu ar bob adeilad er mwyn sicrhau bod cymaint o ddŵr ag y bo modd ar gael at ddibenion dyfrhau.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Sylwebaeth am y cynnydd wrth drefnu gweithgarwch cynaeafu dŵr glaw a pha mor dda y mae'n bodloni anghenion dyfrhau a dŵr yfed anifeiliaid trwy gydol y flwyddyn.

Dylid bodloni anghenion dŵr yr holl weithgareddau gan y dŵr sydd ar gael ar y safle, oni bai bod dewis amgen ar gael sy'n fwy cynaliadwy i'r amgylchedd. Rhaid bod gweithgarwch tynnu o gyrff dŵr (gan gynnwys ffynonellau dŵr daear) fod ar lefelau lle nad ydynt yn peri niwed amgylcheddol. Byddai niwed yn deillio o ostwng lefelau dŵr wyneb a daear.

- Caiff dŵr domestig ei sicrhau o gysylltiad y prif gyflenwad sydd eisoes wedi'i osod ar y safle. Caiff yr holl ddŵr ar gyfer garddwriaeth a dŵr yfed anifeiliaid ar y safle ei sicrhau trwy gynaeafu dŵr glaw.
- I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol: Ffigurau blynyddol ar gyfer defnydd dŵr.

Gwastraff

Mae gwastraff a gynhyrchir gan weithgareddau domestig a gweithgareddau eraill yn debygol o gynnwys y mathau canlynol: gwastraff bwyd domestig, dŵr llwyd, ysgarthion ac wrin dynol, deunydd pacio a phapur, gwastraff gwyrdd a thyfu bwyd a phren a thail da byw.

Meini prawf hanfodol:

Caiff yr holl wastraff bioddiraddadwy a gynhyrchir ar y safle ei gyfuno ar y safle mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy.

- Caiff system gompostio ei chynllunio i fod wrth wraidd y prosiect er mwyn sicrhau bod yr holl wastraff bioddiraddadwy a gynhyrchir ar y safle yn cael ei gyfuno ar y safle mewn ffordd amgylcheddol gynaliadwy.

Yr unig eithriad i hyn yw gwaredu symiau bychain o wastraff oddi ar y safle, nad yw'n wastraff bioddiraddadwy, ac nad oes modd ei gyfuno ar y safle, sy'n codi wrth i bethau a ddefnyddir ar y safle dreulio neu dorri ac nid oes modd eu trwsio.

- Caiff unrhyw wastraff anorganig ei ailgylchu neu ei waredu mewn ffordd gyfrifol.

Rhaid i'r holl weithgarwch trin gwastraff a chyfuno gwastraff ar y safle gydymffurfio â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.

- Bydd yr holl weithgarwch trin gwastraff yn cydymffurfio â chanllawiau Asiantaeth yr Amgylchedd.

I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Ffigurau blynyddol ynghylch cyfanswm y gwastraff a'r dull gwaredu/ cyfuno.

Meini prawf cyfrannol

Dylai ailddefnyddio gwastraff organig ar y safle gynyddu ffrwythlondeb cyffredinol a chynhyrchiant y safle, ar yr amod nad yw hyn ar draul cynefinoedd lled-naturiol pwysig, yn ddibynnol ar ffrwythlondeb pridd isel.

- Defnyddir deunyddiau wedi'u compostio a thail anifeiliaid yn yr ardaloedd garddwriaethol ar y safle yn bennaf, lle y caiff y ffrwythlondeb ei wella o un flwyddyn i'r llall.

I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Sylwebaeth am arsylwadau ynghylch ffrwythlondeb a chynhyrchiant y safle.

Casgliad

Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn dynodi gofynion y preswylwyr o ran incwm a bwyd a fyddai'n cael ei sicrhau o'r safle yn uniongyrchol. Bodlonir anghenion ynni trwy gymysgedd o dechnoleg solar a biomas. Ni nodwyd unrhyw ddiffygion o ran dŵr a gwastraff. Ar y sail hon, ystyrir y gellir sicrhau gofynion preswylwyr y dyfodol o ran bwyd, incwm, ynni, dŵr a gwaredu gwastraff o'r safle yn uniongyrchol yn bennaf, a byddai'n bodloni gofynion OPD.

Adeiladau Di-garbon

Dylai pob Datblygiad Un Blaned rannu'r uchelgais a nodwyd gan Lywodraeth Cymru o sicrhau datblygiad o statws 'di-garbon' o 051an

adeiladwaith a defnydd. Mae canllawiau OPD yn amlinellu'r ffaith nad yw hyn yn golygu na ddylai'r datblygiad gael unrhyw effeithiau carbon net o ran adeiladwaith a defnydd, oherwydd y byddai hyn bron yn amhosibl. Yn hytrach, mae 'di-garbon' yn derm ar gyfer lleihad carbon penodedig a ddefnyddir i ddiffinio'r safon ar gyfer adeiladau di-garbon.

Meini prawf hanfodol:

Bydd adeiladau domestig ac atodol yn rhai 'di-garbon' o ran adeiladwaith a defnydd, fel yr esbonnir yn y canllaw hwn a chan ddefnyddio'r diffiniad diweddaraf o ddi-garbon yng Nghymru.

- Pum elfen yr annedd sy'n ofynnol gan safonau OPD yw'r to, y waliau allanol, y waliau mewnol, y lloriau a'r ffenestri
- Canfu asesiad a gynhaliwyd gan Sureline Design Services Ltd y byddai gan yr annedd arfaethedig radd A+ ar gyfer y bum elfen
- Rhaid bod yr annedd yn un di-garbon o ran defnydd hefyd, a byddai hyn yn cael ei gyflawni gan y gwresogi goddefol solar o'r tŷ gwydr sy'n wynebu'r de, paneli solar ar y to, deunyddiau sy'n inswleiddio yn fawr ar waliau, a stôf biomas effeithlon
- Ni chaff unrhyw rai o'r adeiladau atodol eraill eu gwresogi ac ni fydd ganddynt drydan ac eithrio'r gweithdy, a fydd yn cael trydan gan baneli solar yr annedd
- Byddai modd gwaredu'r annedd a'r strwythurau ar y safle heb gael fawr iawn o effaith o ganlyniad i'r defnydd o bren a sylfeini sylfaenol

I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Sylwebaeth am adeiladwaith adeiladau a'r deunyddiau a ddefnyddiwyd.

Bydd cynigion yn nodi pa strwythurau y bydd gofyn iddynt sicrhau cymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu a bod y gymeradwyaeth hon yn cael ei sicrhau naill ai cyn adeiladu neu yn ystod y gwaith adeiladu.

- Adeiladir yr annedd arfaethedig gyda chymeradwyaeth Rheoliadau Adeiladu

I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Sylwebaeth am gynnydd y gwaith adeiladu ac a yw'n bodloni gofynion Rheoliadau Adeiladu

Mae'r holl strwythurau a nodwyd fel rhai i'w gwaredu yn y Strategaeth Ymadael yn gallu cael eu gwaredu heb gael effaith amgylcheddol fawr.

- Yr annedd yw'r unig adeilad a nodwyd fel un i'w waredu yn y Strategaeth Ymadael ac mae'n gallu cael ei waredu trwy gael effaith amgylcheddol isel.

Bydd pob adeilad yn adeilad un llawr ac wedi'u gwneud o ddeunyddiau naturiol er mwyn eu helpu i ymdoddi i'r tirlun. Ymhellach, o'r ymweliad safle a gynhaliwyd, ac ystyriaeth ehangach o'r tirlun lleol, caiff yr adeiladau arfaethedig eu sgrinio yn dda o fannau ffafriol o gwmpas ac ni fyddant yn amlwg o'r tirlun ehangach.

Asesiad Effaith Cymunedol

Meini prawf hanfodol:

Ceir asesiad o effeithiau'r cynigion ar gymunedau cyfagos. Ni ddylai Datblygiad Un Blaned mewn cefn gwlad agored gael effaith negyddol ar gymunedau cyfagos.

- Mae'r ymgeiswyr wedi ymgysylltu â sawl aelod o'r gymuned leol a'r gymuned amaethyddol ehangach
- Maent wedi nodi eu bwriad i gynnal 3 diwrnod agored y flwyddyn yn ystod misoedd yr haf, gyda phwyslais ar wahodd pobl leol i'r safle i asesu'r cynnydd a sicrhawyd yn y Datblygiad Un Blaned
- Maent yn bwriadu cynnig ymweliadau gan ysgolion lleol
- Prynu bwyd na ellir ei gynhyrchu ar y safle yn lleol

I'w gynnwys yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol:

- Sylwebaeth am feini prawf cyfrannol a'u heffeithiau cadarnhaol.

Cynllun Teithio ac Asesiad Trafnidiaeth

Nod Datblygiad Un blaned ddylai fod i leihau effeithiau amgylcheddol trafndiaeth yn sylweddol, trwy leihau'r angen i deithio a ffafrio dulliau trafndiaeth carbon isel.

Yn unol â'r canllawiau ymarfer, mae'r ymgeiswyr wedi darparu'r wybodaeth asesu angenrheidiol ar ffurf gwaelodlin trafndiaeth, asesiad o symudiadau arfaethedig i'r safle ac o'r safle (mewn car, trafndiaeth gyhoeddus, cerdded, beicio), ynghyd â chynllun Teithio sy'n nodi sut y gellir lleihau symudiadau cerbydau gymaint ag y bo modd mewn perthynas â phob gweithgarwch y mae'r symudiad yn gysylltiedig ag ef.

Bydd mwy o draffig yn ystod y cyfnod adeiladu ac wrth sefydlu'r datblygiad hwn. Mae'r ymgeiswyr yn nodi y byddant yn archebu swmpgyflenwadau er mwyn lleihau nifer y teithiau a fydd yn ofynnol gymaint ag y bo modd, a byddant yn annog y rhai sy'n mynychu'r safle i gyrraedd ar droed, ar feic neu ar drafndiaeth gyhoeddus. Er y dylid nodi, o ystyried amlder trafndiaeth gyhoeddus yn y lleoliad hwn, a pha mor agos ydyw i ganolfannau trefol, bod y cyfleoedd i ymwelwyr deithio mewn ffordd gynaliadwy yn gyfyngedig.

Mae'r ymgeisydd wedi nodi mathau posibl o deithiau ac mae wedi ffurfio strategaethau er mwyn lleihau effaith y teithiau hyn gymaint ag y bo modd. Bydd llwyddiant y rhain yn dod yn amlwg yn y system adrodd flynyddol. Mae'r ymgeiswyr yn berchen ar fan ar hyn o bryd, y byddant yn parhau i'w defnyddio yn ystod y cyfnod sefydlu, ond maent yn bwriadu prynu car trydan at ddibenion teithio yn y dyfodol.

Dadansoddiad o'r Ôl Troed Ecolegol (EFA)

Mae Dadansoddiad o Ôl Troed Ecolegol (EFA) yn ddangosydd sy'n cynnig 'cipolwg' ac sy'n dangos y galw dynol ar adnodd biolegol

cyfyngedig ein planed, a fynegir fel y darn o dir y pen. Mae PPW yn mynnu bod OPD yn sicrhau ôl troed ecolegol o 2.4 hectar byd-eang y pen neu'n llai o ran defnydd yn y lle cyntaf, a dangos potensial clir i symud tuag at 1.88 hectar byd-eang gydag amser. Y cyfrifiad ôl troed ecolegol a gyflwynwyd wrth breswyllo yno y tro cyntaf yw 2.51 hectar byd-eang, a bydd hwn yn gostwng i 1.42 hectar byd-eang ym mlwyddyn 5. Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau y disgwylir i'r ymgeiswyr sicrhau ôl troed ecolegol un blaned sy'n is na'r 1.88 hectar byd-eang a nodir yn PPW. Fel rhan o'r gwaith monitro, bydd yr ymgeiswyr yn darparu'r ffigurau go iawn i'w hasesu gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol.

Cyfnodau

Isod, nodir y cyfnodau arfaethedig fel y'u hamlinellwyd yn y cynllun rheoli a gyflwynwyd:

Blwyddyn 1: Plannu perllan, ffrwythau meddal, gwrychoedd newydd. Taenu tomwellt ar gyfer gerddi blodau a pherlysiau. Dechrau plannu gerddi blodau a pherlysiau. Gosod llwybrau ac arwyneb solet. Gosod twnnel polythen 2. Sefydlu ardal gompostio. Gosod carafán ar y safle fel annedd dros dro.

Blwyddyn 2: Plannu coed cyll a chastanwydd. Gosod twnnel polythen 1. Parhau i ddatblygu gerddi blodau a pherlysiau. Cynllun terfynol, lluniadau peiriannydd strwythurol a rheoliadau adeiladu ar gyfer yr annedd. Adeiladu'r gweithdy.

Blwyddyn 3: Adeiladu'r annedd. Parhau i ddatblygu gerddi blodau a pherlysiau. Dechrau cynhyrchu cynhyrchion llysieuol.

Blwyddyn 4: Parhau i adeiladu'r annedd. Cynyddu cynhyrchiant cynhyrchion llysieuol. Cynaeafu a gwerthu llus America. Cynaeafu afalau, prosesu sudd a gwerthu sudd afal. Datblygu gwelyau llysiau.

Blwyddyn 5: Cwblhau'r annedd. Cynyddu cynhyrchiant cynhyrchion llysieuol. Cynaeafu a gwerthu llus America. Cynaeafu afalau, prosesu sudd a gwerthu sudd afal.

Monitro

Cyflwynir adroddiad monitro blynyddol ar gyfer safle Llety'r Gog. Cyflwynir cyfrifiad EFA yn ystod blynyddoedd 3 a 5 a chyflwynir cynllun rheoli diwygiedig yn ystod blwyddyn 6 ar gyfer y 5 mlynedd ddilynol.

Strategaeth Ymadael

Mae'r ymgeiswyr wedi nodi sut y byddent yn ymateb i'r posibilrwydd na fyddai prosiect Llety'r Gog yn bodloni'r meini prawf hanfodol neu nodweddion Datblygiad Un Blaned dro ar ôl tro. Os na roddir sylw i'r problemau a nodir dros gyfnod o ddwy flynedd, efallai y defnyddir y strategaeth ymadael.

Roedd y strategaeth ymadael yn cyflwyno nodau i wneud defnydd amaethyddol o'r tir unwaith eto, a gadael y safle mewn cyflwr gwell nag yr oedd yn flaenorol cyn y datblygiad. Byddai'r gwaith tirlunio a phlannu ar y safle yn cynnig budd i fioamrywiaeth ac i werth amaethyddol y tir, yn unol ag asesiad Ceredigion Ecology, felly gallai'r gwaith tirlunio a phlannu hwn aros fel ag y mae.

Mae rhan fwyaf yr adeiladau at ddefnydd amaethyddol, felly, gallent barhau ar y safle ar gyfer unrhyw weithrediadau yn y dyfodol, a bydd defnyddio pren ar gyfer rhan fwyaf yr adeiladwaith yn caniatáu i strwythurau o'r fath ymdoddi i'r safle. Ar gyfer yr annedd, mae'r ymgeiswyr wedi cyflwyno dau ddewis, a nodir y rhain isod:

Dewis 1: Os defnyddir y strategaeth ymadael, caiff yr annedd cyfan ei ddatgymalu. Gwerthir unrhyw ddeunyddiau gwerthfawr neu na fyddant yn diraddio er mwyn eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu. Caiff deunyddiau bioddiraddadwy eu compostio ar y safle a gwerthir unrhyw bren i wneud coed tân. Byddai'r sylfeini syml yn cael eu datgymalu, gan ddefnyddio peiriannau bychain a'u llenwi'n ôl gan ddefnyddio isbridd o'r safle.

Dewis 2: Caiff yr annedd ei drawsnewid yn adeilad amaethyddol trwy dynnu'r nodweddion a'r dyfeisiau domestig allan ohono.

Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn barnu mai Dewis 1 yw'r un mwyaf ffafriol, os na chanfyddir defnydd amaethyddol addas ar gyfer y strwythurau arfaethedig, os bydd yr OPD yn dod i ben.

Mae canllawiau Ymarfer Datblygiad Un Blaned yn nodi y dylai'r cynllun rheoli amlinellu strategaeth ymadael os na fydd y datblygiad yn cyflawni un neu fwy o nodweddion hanfodol Datblygiad Un Blaned dros gyfnod o ddwy flynedd heb weithredu mesurau clir ac effeithiol i roi sylw i'r problemau a nodwyd. Mae'r cynllun rheoli yn cynnwys strategaeth ymadael ac fe'i derbyniwyd gan LPC fel strategaeth realistig lle y gellir gwaredu'r adeiladau o'r safle ac adfer y tir i fod yn dir pori amaethyddol.

Ystyriaethau Cynllunio Perthnasol eraill

Effaith Weledol a Dyluniad

Mae'r holl strwythurau arfaethedig yn rhai un llawr ac o faint cymedrol, a byddant yn cael eu sgrinio'n dda. Bydd deunyddiau a gorffeniadau yn ymddangos yn naturiol, a ddylai ymdoddi'n dda i'r tirlun a byddant yn cyd-fynd â chymeriad yr ardal wledig. Lleolir strwythurau eraill mewn ardaloedd wedi'u sgrinio yn dda, felly ni fyddant yn amlwg o'r ardal gyfagos.

Mynediad

Mae'r llwybr a rennir ac a ddefnyddir er mwyn cael mynediad i'r safle wedi bod yno ers dros 300 mlynedd, ac arferai wasanaethu'r tŷ gwreiddiol, o'r enw Llety'r Gog. Mae'r ymgeisydd wedi trwsio'r ffordd yn y cyfamser gyda chymorth cymdogion sy'n defnyddio'r llwybr hefyd, a chyflawnwyd y gwaith hwn yn ystod yr haf 2022. Dim ond un car fydd gan yr ymgeiswyr, er mwyn cydymffurfio â rheoliadau OPD, a cheir digon o le ar y safle i barcio'r car hwn.

Ymhellach, nododd yr ymgeisydd na fydd siop ar y safle, ac y caiff yr hyn a gynhyrchir ar y safle ei werthu ar-lein. Dylai hyn waredu rhan fwyaf y symudiadau traffig posibl a fyddai'n deillio o gael siop ar y safle, a fyddai ar gael i'r cyhoedd.

Fel yr amlinellwyd yn y cynllun rheoli, mae symudiadau i'r safle ac o'r safle yn debygol o fod yn isel yn ystod y flwyddyn, fodd bynnag, nodir y gallai'r gweithgareddau a gyflawnir ar y safle arwain at gynnydd sydyn mewn traffig yn dod i'r safle ac o'r safle e.e. y diwrnodau agored a'r diwrnodau addysg. Fodd bynnag, mae'r cynllun rheoli teithio yn nodi pan gynhelir gweithgareddau, y cynghorir ymwelwyr i rannu eu taith mewn car, i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus, i gerdded neu feicio. Bydd yr adroddiad monitro blynyddol yn sicrhau nad yw symudiadau ar y safle yn cyrraedd nifer a allai arwain at effaith negyddol ar y safle.

Nid oedd yr Awdurdod Prifffyrdd Lleol wedi gwneud unrhyw wrthwynebiadau yn unol ag amodau.

Ecoleg

Ni leolir y safle o fewn dalgylch Afon Teifi, felly nid oes HRA yn ofynnol. Mae NRW ac ecolegydd y Cyngor yn fodlon â'r wybodaeth a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd. Ni wnaethpwyd unrhyw wrthwynebiad.

Casgliad

I gloi, teimlir bod y cais OPD ar gyfer Llety'r Gog wedi cael ei ystyried yn dda, ond mae hefyd yn uchelgeisiol iawn. Bydd gofyn i'r ymgeiswyr wneud cryn dipyn o waith caled a dangos cryn dipyn o ymroddiad dros y bum mlynedd nesaf os ydynt yn mynd i gyflawni'r gofynion monitro. Weithiau, ystyrir bod ffigurau yn rhy dynn neu eu bod wedi cael eu hystyried yn tu hwnt i'r hyn y byddai modd ei gyflawni, fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod Cynllunio Lleol mewn sefyllfa i wrthod y cais ar sail tybiaethau, a bydd cyfrifoldeb ar yr ymgeiswyr dros ddangos eu bod wedi cyflawni'r ffigurau hyn trwy gyfrwng y gwaith monitro blynyddol.

Ceir elfennau megis y nwyddau arfaethedig i'w gwerthu, megis y mentrau cynhyrchion llysiuol a sudd afal fydd â marchnad anhysbys, ac ychydig iawn o fanylion a geir am fusnesau lleol penodol a fydd yn ymrwymo. Yn ogystal, bydd y gofyniad i fodloni safonau iechyd a diogelwch a hylendid bwyd yn cymhlethu'r prosesau hyn ymhellach.

Mae'r incwm y disgwylir iddo gael ei sicrhau o'r tir yn ddibynnol ar gnydau yn gweithio ac amodau tywydd ffafriol hefyd, er y byddai hyn yn wir gydag unrhyw fenter amaethyddol.

Mae'r oriau gwaith sy'n ofynnol rhwng y gwaith ar y tir, y fenter a busnesau yn helaeth, ac ar adegau, cwestiynir a fydd yr ymgeiswyr eu hunain yn gallu bodloni galwadau'r llwyth gwaith o fewn yr amseroedd a roddwyd.

Fodd bynnag, at ei gilydd, mae hwn yn gais sy'n esblygu a dylid rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr i ddangos y gallant fodloni gofyniad yr OPD ar sail y wybodaeth fanwl a'r model busnes y byddant yn ei gyflwyno erbyn Blwyddyn 5. Mae'r cynnig yn cyd-fynd â darpariaethau TAN6 a'r canllawiau ymarfer sy'n cyd-fynd ag ef, ac mae'n cynrychioli datblygiad y mae modd ei gyfiawnhau mewn cefn gwlad agored, yn ogystal â chydymffurfio â pholisïau LDP sy'n ymwneud â diogelu'r tirlun, trafndiaeth a bioamrywiaeth. Argymhellir y dylid ei gymeradwyo yn unol â chydymffurfiaeth ag amodau a llofnodi cytundeb cyfreithiol Adran 106 sy'n rhwymo'r annedd arfaethedig i'r tir.

RHESWM DROS OHIRIO:

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Rheoli Datblygu ar 15 Ionawr, 2025, penderfynodd yr Aelodau gyfeirio'r cais i'r Panel Ymweld (SIP) i'w ystyried ymhellach yn unol â pharagraffau 2 a 5 o feini prawf mabwysiedig y Cyngor.

Cyfarfu'r SIP ar ddydd Gwener 21 Chwefror, 2025 ac roedd yn cynnwys y Cynghorwyr Ifan Davies (Cadeirydd), Carl Worrall, Raymond Evans, Meirion Davies a Hugh Hughes. Hefyd yn bresennol roedd y Cyng. Rhodri Evans fel yr aelod ward lleol a Dr. Sarah Groves-Phillips a Mrs. Catrin Newbold o Wasanaeth Cynllunio'r Cyngor.

Cyflwynodd Dr Groves-Phillips yr achos, gan nodi maint yr arwynebedd tir yn y cais a'r ffaith bod rhywfaint o blannu coed a strwythurau bach eisoes yn eu lle.

